wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

# Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd

## Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2017-18




Fersiwn hygyrch

# Cynnwys

**Tudalen**

| | |
|---|---|
| **Pam adroddiad?** | **3** |
| **Y Bwrdd Partneriaeth** | **4** |
| **Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **6** |
| **Yr hyn yr ydyn ni wedi'i wneud** | **7** |
| • **Gweithio gyda'n Gilydd** | **7** |
| • **Cyngor a Chymorth** | **8** |
| • **Atal** | **8** |
| • **System Wybodaeth** | **8** |
| • **Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu** | **9** |
| • **Gofalwyr** | **9** |
| • **Staff** | **10** |
| • **Cymraeg** | **10** |

**Arian ICF** 11

**Rhai storïau am ICF** 12

**Y Cynllun Ardal** 15

**Cymorth Teuluoedd** 18

**Beth nesaf?** 21

**Cysylltu â'r Bwrdd** 22

## Pam adroddiad?

Mae'n rhaid i ni ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn.


Dyma'r adroddiad.



Mae'n dweud beth rydyn ni wedi ei wneud.

Mae'n cael ei anfon at Weinidogion Cymru hefyd.

Ond mae hefyd yn dweud wrth bawb beth yw'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.



**Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru yn ardal Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.**

Mae aelodau arno o gynghorau a'r Bwrdd Iechyd.

Mae aelodau hefyd sy'n defnyddio gwasanaethau, ac sy'n gofalu am bobl.

*"Trwy fod ar y Bwrdd, rwy'n helpu i wneud yn siŵr bod llais defnyddwyr yn cael ei glywed"*

**James Tyler, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth**

*"Mae bod yn rhan o'r Bwrdd yn rhoi llawer o foddhad gan wybod bod pobl yn uwch i fyny na mi yn gwrando ar ddefnyddwyr y gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio ar eu cyfer"*

**Alan Thomas, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth**

Gwaith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yw sicrhau bod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl yn yr ardal yn cael eu bodloni.

Mae wedi gwneud **Cynllun Ardal** a gallwch chi ofyn amdano mewn fersiwn hawdd ei darllen.

**Mae'r Cynllun Ardal** yn nodi'r prif bethau y mae angen iddyn nhw ddigwydd.

Mae rhai prif flaenoriaethau.

Blaenoriaeth yw rhywbeth sy'n bwysig.

Y blaenoriaethau yw:




- Iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd
- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Cefnogi pobl yn gynnar fel nad yw pethau'n mynd yn wael
- Defnyddio system wybodaeth newydd ar gyfer iechyd
- Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- Gofalwyr
- Y Gymraeg
- Hyfforddi a chadw staff da

Yn yr adroddiad hwn, bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn dweud beth maen nhw wedi'i wneud am y blaenoriaethau hyn.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae llawer o'r hyn y mae'r Bwrdd yn ei wneud yn seiliedig ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cyfraith Gymreig yw hon am ofal a chymorth.



Mae'n golygu:

- Cefnogi pobl i ennill eu llesiant eu hunain
- Rhoi pobl wrth wraidd eu gofal a'u cymorth a rhoi llais iddyn nhw am y cymorth y maen nhw'n ei gael
- Cynnwys pobl wrth ddylunio a darparu gwasanaethau
- Datblygu gwasanaethau sy'n helpu i atal oedi neu sy'n lleihau'r angen am ofal a chymorth parhaus
- Hyrwyddo modelau nid er elw fel mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol
- Cydweithio ar draws asiantaethau wrth ddarparu gofal a chymorth



Mae'r Ddeddf eisiau i bobl allu dweud:

***'Mae fy gofal wedi'i gynllunio gen i gyda phobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall fi, fy nheulu a'm gofalwr(wyr), gan roi rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau at ei gilydd i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i mi'***

## Yr hyn yr ydyn ni wedi'i wneud



## Gweithio gyda'n Gilydd

- Cyhoeddi ein Cynllun Ardal cyntaf
- Edrych ar ffyrdd o wneud pethau yn fwy tebyg ar draws yr ardal.
- Gweithio ar wneud contractau cartref gofal yn rhanbarthol
- Edrych ar gomisiynu (prynu gwasanaethau) mwy yn rhanbarthol
- Gweithio gyda llawer o bobl i gefnogi'r Trydydd Sector a gwneud mwy gyda nhw
- Edrych ar beth mae'r trydydd sector yn ei wneud ar gyfer atal
- Ymgysylltu â darparwyr dros rôl bosibl a gweithrediad fforwm darparwyr rhanbarthol
- Talu am hyfforddiant i reolwyr am fesur pa mor dda y mae gwasanaethau yn ei wneud
- Edrych ar wasanaethau eraill a allai weithio ar draws ardal Gorllewin Cymru

## Yr hyn yr ydyn ni wedi'i wneud



### Cyngor a Chymorth

- Helpu i gael gwybodaeth ar
  - Dewis – sef cyfeiriadur Llywodraeth Cymru a
  - Infoengine – sef fersiwn y Trydydd Sector
- Cysylltu'r ddau




### Atal

- Gofyn am adroddiad mawr yn edrych ar wasanaethau sy'n atal pobl sydd angen cymorth



### System Wybodaeth

- Cynnal cynllun peilot yng Ngheredigion
- Cynllunio beth sydd angen ei wneud nesaf

## Yr hyn yr ydyn ni wedi'i wneud

### Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar ei raglen Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Mae Grŵp Gweithredu Iechyd Meddwl Rhanbarthol wedi'i sefydlu i oruchwylio'r ddarpariaeth
- Cynnal gweithdy gyda chomisiynwyr, rheolwyr, darparwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr i ddechrau trawsnewid gwasanaethau anableddau dysgu.

### Gofalwyr



- Sefydlu Grŵp Cyflawni Gofalwyr rhanbarthol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r RPB
- Datblygu Cynllun Cyflawni Gofalwyr ar gyfer 2018-19

## Yr hyn yr ydyn ni wedi'i wneud

### Staff



- Sefydlu grŵp gweithlu gyda phobl o'r cynghorau a'r bwrdd iechyd
- Sefydlu hyfforddiant rhanbarthol ar gyfer staff gofal a chymorth
- Dechrau gweithio ar gynllun gweithlu rhanbarthol i wneud cael a hyfforddi staff yn well

### Cymraeg

Cymraeg

- Fforymau iaith Gymraeg yn eu lle ar draws y rhanbarth
- Mae'r rhain yn helpu pobl sydd eisiau cael gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## ICF

Mae hon yn gronfa fawr gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gronfa i helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol.

Ac i wneud pethau'n well i bobl ag anableddau dysgu, pobl ag awtistiaeth, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth.

Yn 2017-18, rhoddodd yr ICF bron 7 miliwn o bunnoedd i ranbarth Gorllewin Cymru.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn rheoli'r gronfa ac mae wedi cefnogi llawer o brosiectau.

Er enghraifft:

- £318,000 i sefydlu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i wella diagnosis a darparu cymorth i blant ac oedolion ag awtistiaeth a'u gofalwyr.
- Gwnaeth cronfeydd ICF sefydlu Gwasanaeth Ymyrraeth Ymddygiadol i roi mwy o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu sydd hefyd yn dangos ymddygiad heriol a'u teuluoedd, gofalwyr ac athrawon.

Dyma dair stori wir am yr hyn y mae ICF yn ei helpu.

**Prosiect CUSP, Sir Gaerfyrddin**

Mae CUSP yn darparu cymorth gan y trydydd sector i gefnogi pobl 18 + oed i'w helpu i fyw'n dda ac yn annibynnol. Mae wedi'i arwain gan y Groes Goch Brydeinig

ac mae wedi'i anelu at bobl sydd ar fin bod angen gofal a chymorth gan y gwasanaethau statudol, pan yn aml gallai un broblem fach wthio rhywun 'dros y dibyn'. Mae'r bobl sy'n cael cymorth gan CUSP yn cael eu hasesu gan y Groes Goch Brydeinig, a fydd wedyn yn dod o hyd i wasanaethau lleol a all helpu.

Cafodd menyw 78 oed sy'n byw ar ei phen ei hun yn Sir Gaerfyrddin lled-wledig ei chyfeirio at CUSP ar ôl i'w pherthynas gyda'i mab chwalu, a oedd yn golygu nad oedd neb ganddi i wneud ei siopa. Gwnaeth y Groes Goch Brydeinig ychydig o siopa brys iddi ac yna cael asiantaeth gofal i wneud ei siopa bob wythnos.

**Cymunedau Gweithgar a Chysylltiedig, Sir Benfro**

Mae'r prosiect hwn yn Sir Benfro yn cael gwirfoddolwyr i ddatblygu grwpiau a gweithgareddau cymdeithasol cymunedol i fynd i'r afael ag unigrwydd.

Mae S yn ddyn 33 mlwydd oed ag anabledd dysgu sy'n byw ar ei ben ei hun. Er ei fod yn gallu parhau i fod yn annibynnol gyda chymorth gweithiwr cymdeithasol, roedd S yn teimlo'n unig

iawn ac nad oedd yn hoffi mynd allan ar ei ben ei hun. Cafodd y prosiect wybod fod S yn caru'r awyr agored. Felly, cafodd ei gysylltu â Thir Coed, elusen leol sy'n gweithio â choetiroedd.  Mae S bellach yn gwirfoddoli gyda'r prosiect ddwywaith yr wythnos.

Dywedodd S: 'Roedd cael gwybod am Tir Coed a'r grŵp arall yn dda iawn. Roedd yn gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arna' i ac yn  obeithiol yr oedd rhywbeth y gallwn i ei wneud i fynd allan. Rwy'n hoffi mynd i Tir Coed ac mae'n rhoi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato'.

Ac yng **Ngheredigion**, mae prosiect yn gweithio gyda thai pobl.

Roedd gwraig oedrannus wedi cymryd lletywr â phroblemau iechyd meddwl. Roedd ganddo ofalwr. Fodd bynnag, stopiodd y gofalwr ddod oherwydd cyflwr yr eiddo, roedd pydredd sych ar lawr y gegin ac roedd yn beryglus. Trefnodd y prosiect lawr a gorchudd newydd, ffenestr newydd yn y gegin a dau wresogydd storio yn yr ystafell fyw.

Menyw oedrannus a aeth i mewn i ofal, yr oedd ei heiddo yn fochaidd ac yn afiachus. Cafodd yr eiddo ei lanhau, a threfnwyd gwres, fel y gallai'r fenyw ddod adref.

Roedd dyn oedrannus yn yr ysbyty yn barod i fynd adref, a sefydlwyd pecyn gofal. Ond nid oedd y tŷ yn ddiogel. Cafodd y gwaith ei wneud, ac roedd y dyn yn gallu dod adref. Roedd hyn wedi arbed arian a gwely mewn Ysbyty

**Y Cynllun Ardal**

Mae'r Cynllun yn nodi beth sydd angen ei wneud.



Mae tair prif thema:

- Helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol o fewn y gymuned
- Helpu pobl sydd angen rhywfaint o gymorth i'w hatal rhag angen ysbyty neu ofal neu eu helpu i adael cyn gynted ag y gallan nhw.
- Sicrhau bod pobl sydd ei angen yn cael gofal a chymorth tymor hir da

Dyma rai o'r cynlluniau



**Helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol o fewn y gymuned**

- sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd ei deall
- deall pa mor bwysig yw ymarfer corff rheolaidd

- bwyta'n iach
- cysylltu pobl â chanolfannau llesiant
- cymorth anffurfiol o fewn cymunedau
- datblygu gwasanaethau byw â chymorth

**Helpu pobl sydd angen rhywfaint o gymorth i'w hatal rhag angen ysbyty neu ofal neu eu helpu i adael cyn gynted ag y gallan nhw.**



- gofal yn eich cartref eich hun
- addasiadau tai
- gwasanaethau ymateb cyflym
- cefnogi teuluoedd a rhieni i leihau profiadau gwael yn ystod plentyndod
- adeiladu ar waith y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig i weithio gyda'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru a'u cefnogi

**Sicrhau bod pobl sydd ei angen yn cael gofal a chymorth tymor hir da**

- cefnogi annibyniaeth
- adeiladu ar gryfderau pobl
- gweithio i leihau lefelau diangen o ofal

Nid y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn unig, ond pawb sydd am i'n hardal gefnogi pobl yn well.



Mae'r Cynllun yn cysylltu â Chynlluniau eraill ac yn uno gwaith cynghorau a'r Bwrdd Iechyd.
Byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan.



Nid y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn unig, ond pawb sydd am i'n hardal gefnogi pobl yn well.

**Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd**

Mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig (IFSS) yn rhoi cymorth i deuluoedd sydd â phroblemau mawr, gan eu helpu i aros gyda'i gilydd drwy eu hannog i gymryd camau cadarnhaol i wella eu bywydau.



Mae gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ddyletswydd i gefnogi'r gwasanaethau hyn.

Maent

- yn darparu cymorth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n cynrychioli teuluoedd agored i niwed
- Darparu cymorth i deuluoedd
- Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd
- Datblygu sgiliau'r gweithlu

**Dyma rai enghreifftiau**

**Sir Gaerfyrddin** Cafodd IFSS atgyfeiriad ar gyfer mam 20 mlwydd oed a dau o blant ifanc. Mae gan y fam hanes o gamddefnyddio sylweddau ac mae'r rhan fwyaf o'i ffrindiau yn camddefnyddio cyffuriau. Pan oedd yn 19, bu ar gymorth bywyd ar ôl camddefnyddio cyffuriau. Roedd ei phartner yn y carchar. Ar ôl iddi gael ei babi ieuengaf, rhoddwyd hi a'i phlentyn mewn lleoliad maeth rhiant/babi am wyth wythnos. Digwyddodd lawer o waith yn ystod y lleoliad a wnaeth barhau yn y cartref, ac mae hi'n gwneud yn dda.

**Ceredigion** Roedd gan IFSS achos lle roedd bachgen ifanc, 7 oed, wedi'i gymryd o ofal ei fam gan yr heddlu. Yn gyntaf, bu'n byw gyda'i fam-gu a'i dad-cu, ac yna aeth yn ôl at ei fam ac mae wedi aros yn ei gofal. Rhoddodd y Tîm

lawer o gymorth i bawb ac maen nhw'n gwneud yn dda.

**Sir Benfro** Cafodd IFSS atgyfeiriad ar gyfer mam a oedd wedi cael ei harestio am esgeulustod, oherwydd cafodd ei chanfod yn anymwybodol oherwydd camddefnyddio sylweddau. Gosodwyd ei phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd y fam wedi bod mewn perthynas gamdriniol a chymerodd y tîm amser i helpu'r fam i ddeall y sefyllfa. Oherwydd y gefnogaeth hon, gwnaeth nifer o newidiadau, gan gynnwys dod â pherthynas gamdriniol i ben, symud cartref, a meithrin ei gwytnwch, i'w galluogi i edrych ar ôl ei phlant yn annibynnol unwaith eto. Mae'r plant nawr wedi'u cymryd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.



## Beth nesaf?

Wrth i ni symud i 2018-19, mae'r Bwrdd yn hyderus fod pethau yn mynd yn dda, ac yn symud ymlaen.

Bydd y Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar atal.

Byddan nhw'n profi syniadau newydd.

Byddan nhw’n parhau i gynnwys pobl.

Pan fydd pethau yn gweithio, byddan nhw'n ceisio gwneud iddyn nhw ddigwydd ar draws yr ardal.

Byddan nhw'n parhau i gael pobl a siroedd i weithio gyda'i gilydd.

Maen nhw'n llawn cyffro am y flwyddyn i ddod.

**Am ragor o wybodaeth**:

[www.wwcp.org.uk](http://www.wwcp.org.uk)

01267 228756

wwcp@carmarthenshire.gov.uk

Fersiwn darllen hygyrch gan aelodau Pobl yn Gyntaf Sir Benfro

01437 769135

info@pembrokeshirepeople1st.org.uk

Rydyn ni'n defnyddio Photosymbols